

DMQTWB 11 - Tystiolaeth gan: Swyddfa Archwilio Cymru

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee

Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) | Disused Mine and Quarry Tips (Wales) Bill

1. Beth yw eich barn am egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

2. Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl Rhannau, isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- Rhan 1 - Awdurdod Tomenni nas Defnyddir Cymru (adrannau 1 i 5 a Atodlen 1)

- Rhan 2 - Asesu, cofrestru a monitro tomenni nas defnyddir (adrannau 6 i 32 a Atodlen 2)

- Rhan 3 - Ymdrin ag ansefydlogrwydd tomen a bygythiadau i sefydlogrwydd tomen (adrannau 33 i 54 a Atodlen 3)

- Rhan 4 - Darpariaeth atodol (adrannau 54 i 70)

▪ **Rhan 5 – Cyffredinol (adrannau 71 i 88)**

3. Beth yw'r rhwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, a sut mae'r Bil yn ystyried y rhwystrau hynny?

4. Pa mor briodol yw y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol)?

5. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn debygol o ddeillio o'r Bil?

6. Beth yw eich safbwyntiau ar asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol y Bil fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol.

Nid oes gennym unrhyw sylwadau ehangach i'w gwneud ar y Bil, ac nid ydym wedi asesu trylwyrdd cyffredinol asesiad ariannol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ar ôl edrych ar y Memorandwm Esboniadol cyhoeddedig, rydym eisoes wedi codi dau ymholiad gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Maent wedi nodi y byddai asesiad diwygiedig ar ôl Cam 2, ac rydym eisoes yn trafod hynny gyda nhw.

Y ddau fater yr ydym wedi eu codi gyda swyddogion yw:

Costau Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae Tabl 14 yn cynnwys cyfanswm costau o £0.1 miliwn yn ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru dros gyfnod yr asesiad. Mae'r costau hyn yn cael eu

tanamcangyfrif. Nid ydynt yn ystyried yn ddigonol gostau cyfunol gwaith ar archwiliadau datblygu cynaliadwy, yn unol â'r sylwebaeth ym mharagraff 8.96, a'r archwiliad blynyddol o gyfrifon unwaith y bydd yr Awdurdod newydd yn weithredol. Gall rhywbeth oddeutu £0.1 miliwn (wedi'i dalgrynnu) gyfrif am gostau archwiliadau datblygu cynaliadwy yn unig.

Mae'n anodd bod yn fanwl gywir ynghylch cost archwilio cyfrifon, ac mae ein ffioedd archwilio cyfrifon amcangyfrifedig a gwirioneddol ar draws cyrff y llywodraeth ganolog yn adlewyrchu ffactorau cyd-destunol amrywiol. Efallai y bydd premiwm hefyd ym mlwyddyn gyntaf corff newydd. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i'r gost i'r corff newydd fod yn fwy na £20,000 y flwyddyn fel mater o drefn am y prisiau cyfredol. Ynghyd â chostau archwiliadau datblygu cynaliadwy, byddai hyn felly'n ychwanegu'n sylweddol at asesiad cyfredol Llywodraeth Cymru o gostau'r Archwilydd Cyffredinol.

Costau recriwtio: Sylwom hefyd fod costau recriwtio i'w gweld yn cael eu tangynrychioli yn Nhabl 14. Mae Tabl 14 yn caniatáu £300,000 ond, yn seiliedig ar baragraff 8.97, mae'r ffigur hwn yn ymwneud â 2026-27 yn unig. Nid yw'n ymddangos bod Tabl 14 yn ystyried y gost arfaethedig o £200,000 yn 2027-28 a chost flynyddol wedi hynny o £13,000.

7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef, neu unrhyw faterion cysylltiedig?